

CONSORTIWM CLUDIANT INTEGRIG DE-ORLLEWIN CYMRU  
SOUTH-WEST WALES INTEGRATED TRANSPORT CONSORTIUM



**SWITCH**

**Cynnydd ar y  
Cyd -  
Y Cynllun  
Trafnidiaeth  
Rhanbarthol ar  
gyfer  
De-orllewin  
Cymru  
2010 – 2015**



**CRYNODEB O'R CYNLLUN  
TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL AR  
GYFER DE-ORLLEWIN CYMRU**



# CYNNWYS

<b>Adran</b>		<b>Tudalen</b>
	Rhagair	3
Un	Cyflwyniad, Gweledigaeth ac Amcanion	4
Dau	Dewisiadau a Strategaeth Hirdymor	8
Tri	Polisiâu a Strategaethau Cydrannol y Cynllun Trafnidiaeth	
	Rhanbarthol	11
Pedwar	Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	14
Pump	Cyflenwi a Monitro	24
Chwech	Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG)	25
Saith	Asesiad Amgylcheddol Strategol	27
	Rhestr o Acronymau	28

## **Ffigurau**

1	Camau'r CTRh a'r Ymgysylltu	5
2	Hidlo prosiectau awgrymwyd gan y Rhanddeiliaid	15

## **Tablau**

1	Prosiectau yn bodloni trothwy'r arfarniad	16
2	Crynodeb o'r 3 dewis o raglen	7
3	Three RTP programme options	18-22
4	Cynigion Monitro SWWITCH	26

## **Lluniau**

Daw pob llun o lyfrgell lluniau SWWITCH oni nodir fel arall



## Rhagair

Mae mynediad da yn hanfodol i ansawdd ein bywyd yn Ne-orllewin Cymru. Gall gwella mynediad a chysylltiadau a gwasanaethau trafndiaeth gynyddu'r cyfleoedd am waith, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden/cymdeithasol yn ogystal â gwella hyfywedd a chynaliadwyedd busnesau.

Pleser fu cydweithio i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer yr ardal hon a byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull hwn o weithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau'r cynllun. Bwriedir i'r Cynllun ddarparu strategaeth hirdymor ar gyfer y cyfnod hyd at 2025 a rhaglen bum mlynedd o brosiectau i'n helpu i gyflawni'r strategaeth honno. Ni all SWWITCH gyflawni'r cynllun ar ei ben ei hun; bydd angen partneriaeth waith dda rhwng nifer o asiantaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd naill ai'n dylanwadu ar y galw am drafndiaeth neu'n helpu i gwrdd â'r galw hwnnw.

Ni fwriedir i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn gwbl ddi-syfl. Er na fydd yr amcanion a'r strategaeth fras yn newid mae'n anochel y gwelir newidiadau yn y blaenoriaethau dros y blynyddoedd wrth i SWWITCH geisio darparu ar gyfer anghenion newydd am fynediad neu fanteisio ar gyfleoedd a ddaw i'w ran o bryd i'w gilydd. Cyhoeddir adroddiadau cynnydd yn flynyddol yn egluro unrhyw newidiadau a bydd ein rhanddeiliaid yn derbyn gwybodaeth ac yn cael cyfle i gyfrannu i'r broses honno.

Mae nifer o randdeiliaid wedi ein cynorthwyo yn ystod y gwaith gan gyfrannu i holl gamau datblygu'r cynllun drafft a dymunwn ddiolch iddynt am eu hamser, eu hymdrechion a'u hymrwymiad. Edrychwn ymlaen at ddal i weithio gyda chi wrth gyflenwi polisïau a phrosiectau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.



Y Cyngorydd W Haydn Jones  
Cadeirydd SWWITCH 2009/10



Y Cyngorydd John Hague



Y Cyngorydd Sandra Miller



Y Cyngorydd Jamie Adams

## 1.0 ADRAN UN – CYFLWYNIAD, GWELEDIGAETH AC AMCANION

- 1.1 Mae mynediad da yn elfen hanfodol o ansawdd bywyd da. Caiff mynediad da ei ddarparu pan ddeuir â gwasanaethau a chyfleusterau (megis gofal iechyd, cyflogaeth, addysg a hamdden) yn uniongyrchol i'r defnyddwyr neu pan fo trafndiaeth ddibynadwy, integredig a hygyrch ar gael i fynd â'r defnyddwyr i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny. Mae mynediad da yn help i gyflawni nodau strategol y Llywodraeth ar bob lefel yn cynnwys:
- Gwella gweithgarwch economaidd
  - Codi lefelau sgiliau
  - Unigolion a chymunedau mwy iach ac egniol
  - Cynyddu cynhwysiad cymdeithasol
- 1.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi pennu lefel uwch o ddyheadau ar gyfer Cymru yn Agenda Cymru'n Un a Chynllun Gofodol Cymru. Hefyd mae LICC wedi mabwysiadu Strategaeth Drafndiaeth Cymru sy'n anelu at ddarparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwell mynediad er helpu cyflenwi Cymru'n Un.
- 1.3 Un o'r pedwar consortiwm trafndiaeth yng Nghymru yw Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH), ac mae'n rhaid iddynt oll gynhyrchu Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol (CTRh) a fydd yn gymorth iddynt gyflawni'r canlyniadau a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yn Strategaeth Drafndiaeth Cymru, yn eu rhanbarthau. Rhaid i'r CTRh'au hefyd gefnogi dyheadau Cynllun Gofodol Cymru a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill yn ymwneud â'r economi, datblygu cynaliadwy a'r amgylchedd.
- 1.4 Pennodd LICC ganllawiau ar gyfer ffurf a chynnwys cyffredinol y CTRh a chyflwynodd fecanwaith arfarnu newydd, Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WelTAG), er sicrhau bod y CTRh, ar lefelau strategol a fesul rhaglen, yn canolbwyntio'n barhaus ar gyflenwi ei amcanion. Hefyd mae'n ofyniad statudol ar i bob consortiwm gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o'r CTRh.



## Ymgynghori


1.5 Mae Canllawiau CTRh, WeITAG a'r AAS i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad rhanddeiliaid ym mhob cam o ddatblygu'r CTRh. Mae SWWITCH wedi treulio amser ac egni ar ymgynghori, yn cynnwys:

- Mwy na 50 o weithdai
- Cyhoeddi CTRh drafft ffurfiol
- Diweddariadau ar e-bost a newyddlenni

Mae hyn wedi helpu i sicrhau y bydd y CTRh yn cyflenwi'r polisiau a'r prosiectau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi gwell mynediad i mewn ac allan o Dde-orllewin Cymru. Mae Ffigur 1 isod yn dangos camau'r CTRh a'r cysylltu a fu gyda rhanddeiliaid. Yn ychwanegol â'r amrywiaeth eang o weithdai a sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd roedd yn hanfodol hefyd i gynnal ymchwil mwy ffurfiol i'r gwaith o ddatblygu'r CTRh ac roedd hynny'n cynnwys:

- Asesiad Mynediad ar Lefel Strategol – yn defnyddio'r system fapio gyfrifiadurol Accession™
- Ymchwil i Batrymau Teithio – yn cynnwys dyddiaduron teithio dros 7 diwrnod a gwblhawyd gan fwy na 2000 o drigolion y rhanbarth
- Arolygon Bodlonrwydd Teithwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus – yn cynnwys defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus a'r rheiny nad oeddent yn ei ddefnyddio
- "Paneli Dinasyddion" Awdurdodau Lleol – detholiad o gynrychiolwyr demograffig yn ymateb i gwestiynau penodol ar drafnidiaeth

**Ffigur 1 – Camau'r CTRh a'r Ymgysylltu**



- 1.6 Mae Strategaeth a Pholisiau'r CTRh yn cwmpasu pob agwedd ar fynediad a thrafnidiaeth a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgareddau trafndiaeth y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn Ne-orllewin Cymru. Hefyd mae'r CTRh yn ddogfen geisiadau ar gyfer rhaglen o wariant cyfalaf ar drafnidiaeth i helpu cyflawni gwell mynediad. Fodd bynnag nid yw'r rhaglen yn cynnwys cyfrifoldebau trafndiaeth LICC (er bod SWWITCH yn gwneud argymhellion ynghylch blaenoriaethau LICC) na mudiadau masnachol na all SWWITCH ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Nid yw'r Rhaglen ychwaith yn cynnwys prosiectau reffeniw, sy'n rhan hanfodol o ddarparu mynediad da yn y rhanbarth.

#### Materion trafndiaeth allweddol yn y rhanbarth

- 1.7 Mae rhanbarth De-orllewin Cymru yn amrywiol iawn o ran daearyddiaeth, poblogaeth a'r economi ac mae'n cynnwys ardaloedd trefol tagedig, cymunedau gwledig anghysbell ac amrywiaeth eang o ardaloedd rhwng yr eithafion hyn. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Eithriadol y Gŵyr.
- 1.8 Er gwaethaf yr amrywiaeth rhwng yr ardaloedd mae nifer o broblemau mynediad yn gyffredin iddynt a chafodd y rhain eu hamlygu yn ystod yr ymgynghoriad rhanbarthol ar Gynllun Gofodol Cymru (CGC) a'r CTRh.



- 1.9 Mae'r materion trafndiaeth allweddol canlynol wedi codi dro ar ôl tro yn ystod yr ymgynghori a hwy yw'r sylfaen ar gyfer datblygu'r CTRh.
- Bu cynnydd sylweddol yn **llif y traffig ar ffyrdd** y rhanbarth dros y degawd diwethaf ac mae'r straen a barwyd gan hynny'n cael ei amlygu gan anwadalwch amserau'r teithiau, mwy o dagfeydd, dirywiad yn ansawdd yr aer, a chynnydd mewn sŵn, dirgryniad ac allyriadau carbon
  - Mae materion **diogelwch ar y ffyrdd** yn peri pryder i'r cyhoedd ac er bod gostyngiad cyffredinol yn nifer yr anafiadau difrifol a marwolaethau a achosir gan ddamweiniau ffyrdd mae amrywiaethau mawr ar draws y rhanbarth ac o ran categorïau neilltuol o ddefnyddwyr y ffordd
  - Mae'r nifer sydd bellach yn **berchen ar gar ac yn defnyddio car** wedi codi'n sydyn er bod gwahaniaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rheiny sy'n berchen ar gar yn gallu cymryd rhan mewn ystod llawer ehangach o gyfleoedd na'r rheiny sy'n ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.



- Ar y cyfan mae darpariaeth **y drafnidiaeth gyhoeddus** yn cyfateb i ddosbarthiad y boblogaeth ac mae'r gwasanaethau mwyaf aml a'r teithiau mwyaf amrywiol wedi'u lleoli yn ne a dwyrain y rhanbarth lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw. Nid oes gwasanaeth mor helaeth ar gael yn yr ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth yn wasgarog. Darperir gwasanaethau trenau, bysiau a choetsys gan gwmnïau sector preifat drwy gymysgedd o wasanaethau masnachol a gwasanaethau noddedig. Mae pobl sydd â phroblemau symud yn parhau i gael eu rhwystro rhag defnyddio gwasanaethau bysiau a threnau mewn rhai ardaloedd

1.10 Mae cyfleusterau a gwasanaethau trafndiaeth allweddol eraill sydd wedi dylanwadu ar ddatblygu'r CTRh yn cynnwys:

- Mae cyfraniad y **gwasanaeth cludo nwyddau** yn hanfodol i'r economi ond caiff ei gynllunio a'i gyflenwi gan y sector preifat yn unol â phrosesau deddfwriaethol Ewrop a'r DU
- Hwylusir symudiad teithwyr a nwyddau yn ôl ac ymlaen i'r rhanbarth gan **Borthladdoedd a Llongau** ac mae'r rhain yn gyswllt hanfodol yn rhwydwaith y gadwyn gyflenwi genedlaethol.
- Mae tri **Maes Awyr** bychan yn y rhanbarth: Abertawe, Pen-bre a Llwynhelyg. Nid oes ganddynt rôl strategol ar hyn o bryd ac nid ydynt yn darparu gwasanaethau rheolaidd ond mae ganddynt oll y potensial i gael eu datblygu.

1.11 Wedi ystyried yr holl broblemau a phryderon a amlygwyd gan ymchwil ffurfiol neu gan gyfraniad rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghori, mae SWWITCH wedi datblygu a mabwysiadu gweledigaeth ar gyfer gwell mynediad a thrafnidiaeth yn y rhanbarth.

### Gweledigaeth y CTRh

Ein Gweledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru yw gwella trafndiaeth a mynediad yn y rhanbarth a thu hwnt iddo er hwyluso datblygu economaidd a datblygu a defnyddio dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy ac iach

1.12 Datblygwyd y weledigaeth yn saith amcan penodol ar gyfer y rhanbarth. Mae'r rhain wedi'u nodi isod ac maent yn cynnwys yr hyn y mae SWWITCH am ei weld yn cael ei gyflawni gan strategaethau, polisiau a rhaglen y CTRh.

1.13 Mae'r amcanion yn hanfodol bwysig gan mai hwy oedd man cychwyn pob arfarniad gan y rhanddeiliaid a'r penderfyniadau a wnaed wedyn. Roedd yr ymgynghori ar ddatblygu ac arfarnu strategaeth hirdymor a rhaglen y CTRh i gyd yn canolbwyntio ar yr hyn fyddai'n cydweddu orau ag amcanion y CTRh. Yn yr un modd bydd y cynigion monitro amlinell a'r dangosyddion a thargedau a ddatblygir yn y dyfodol yn canolbwyntio ar raddfa'r llwyddiant i fodloni amcanion y CTRh.

## Amcanion y CTRh

1. Gwella mynediad pawb i ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau yn cynnwys cyflogaeth a busnes, addysg a hyfforddiant, gofal iechyd, twristiaeth a gweithgareddau hamdden
2. Gwella cynaliadwyedd trafndiaeth drwy wella ystod ac ansawdd dewisiadau trafndiaeth a chodi ymwybyddiaeth ohonynt gan gynnwys y rheiny sy'n gwella iechyd a lles
3. Gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd symudiad pobl a nwyddau yn Ne-orllewin Cymru a thu hwnt er cefnogi'r economi rhanbarthol
4. Gwella'r modd y cyfunir polisiau, darpariaeth gwasanaethau a dulliau trafndiaeth yn Ne-orllewin Cymru
5. Rhoi mesurau ar waith sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd yr aer a lleihau effaith andwyol trafndiaeth ar iechyd a newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lleihau allyriadau carbon
6. Rhoi mesurau ar waith sy'n helpu i leihau'r effaith negyddol a gaiff trafndiaeth ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys bioamrywiaeth, ar draws y rhanbarth.
7. Gwella diogelwch ar y ffyrdd a diogeliad personol yn Ne-orllewin Cymru

- 1.14 Mae'r holl waith a wnaed gyda rhanddeiliaid hefyd wedi amlygu cyfleoedd a heriau allweddol ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

### Cyfleoedd

- Datblygu mwy fyth ar wella dewisiadau trafndiaeth amgen (yn lle'r car preifat)
- Cynyddu'r pwyslais ar godi ymwybyddiaeth a marchnata trafndiaeth gynaliadwy a thocynnau amlfoddol
- Technoleg newydd fydd yn golygu bod llai o alw am deithio a bod cerbydau a thanwydd yn lanach

### Heriau

- Y newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon
- Dibyniaeth ar danwydd ffosil na fydd yn para am byth ac ansicrwydd y farchnad
- Cyllid Cyfalaf a Refeniw ar gyfer prosiectau trafndiaeth hanfodol a gwasanaethau cynaliadwy ac integredig

## **2.0 Y DEWISIADAU A'R STRATEGAETH HIRDYMOR**

- 2.1 Wedi mabwysiadu gweledigaeth ac amcanion y CTRh y cam nesaf oedd archwilio'r opsiynau lefel uwch ar gyfer cyflawni'r amcanion a datblygu ac arfarnu strategaeth hirdymor i wella mynediad a thrafnidiaeth.

### Creu dewisiadau ac arfarnu

- 2.2 Profwyd nifer o wahanol senarios cynllunio mewn gweithdai rhanddeiliaid er ysgogi trafodaeth a phennu'r un fyddai'n peri'r cynnydd mwyaf o ran cyflawni amcanion y CTRh.

### 2.3 Roedd y senarios/dewisiadau a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

- **Y Car yn Frenin** – Mae'r senario hon yn ymwneud â chefnogi defnyddio ceir.
- **Calonnau a Meddyliau** – Mae'r senario hon yn canolbwyntio ar annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy a lleihau teithio diangen.
- **Cyfyngu ar y Galw** – Mae'r senario hon yn ymwneud â chymau i gyfyngu ar ddefnyddio ceir preifat.
- **Cynllunio'r Dyfodol** – Mae'r senario hon yn ymwneud ag integreiddio cynllunio defnydd tir gyda pholisïau eraill i leihau'r angen am geir preifat.
- **Trafnidiaeth Gyhoeddus yn Rheoli** – Mae'r senario hon yn cefnogi twf, datblygu a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
- **Cymysgu a Chydweddu** – Mae'r senario hon yn gymysgedd o'r uchod.



2.4 Canlyniad yr ymgynghori ar greu dewisiadau oedd mai'r dewis "Cymysgu a Chydweddu", yn cynnwys amrywiol fesurau, oedd yr unig ddewis realistig ar gyfer y rhanbarth yn ei chyfanrwydd.

#### Strategaeth Hirdymor

2.5 Roedd y broses o ddatblygu ac arfarnu strategaeth hirdymor yn broses ryngweithiol hefyd ac yn cynnwys ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Gofynnwyd i randdeiliaid ystyried ystod o elfennau posib ar gyfer y strategaeth a graddio'r elfennau yn nhrefn blaenoriaeth gan roi'r graddfeydd uchaf i'r rheiny oedd fwyaf tebygol o gyflawni'r amcanion.

2.6 Cyfunwyd canlyniadau pob sesiwn rhanddeiliaid ac edrychwyd yn fanwl ar y blaenoriaethau. Roedd rhai o'r elfennau a flaenoriaethwyd ar gyfer y Strategaeth Hirdymor yn ymwneud yn uniongyrchol â materion na all SWWITCH ddylanwadu arnynt. Gallai hynny fod oherwydd eu bod:

- yn y maes masnachol (er enghraifft cludiant nwyddau a thanwydd cynaliadwy)
- yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan LICC (y rhwydwaith a'r gwasanaethau rheilffyrdd a chysylltiadau ffyrdd strategol Dwyrain/Gorllewin)
- yn ymwneud yn uniongyrchol â gwariant refeniw. (Er bod cyllid refeniw yn hanfodol ar gyfer y CTRh, rhoddir y prif ffocws ar sicrhau buddsoddiad cyfalaf)

2.7 Wedi ystyried y materion a nodir yn 2.6 arfarnwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Hirdymor yng nghyd-destun dyheadau lefel uwch Cymru'n Un, Cynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. O ganlyniad y blaenoriaethau hirdymor canlynol fabwysiadwy gan SWWITCH:

#### **Strategaeth Hirdymor y CTRh**

- **Gwella cynlluniau defnydd tir a thrafnidiaeth** – drwy ddefnyddio Cynlluniau Hygyrchedd i sicrhau bod datblygiadau yn cael eu lleoli yn y man cywir
- **Gwella cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd strategol dwyrain/gorllewin** – i greu cysylltedd mewnol mwy dibynadwy a gwell cysylltedd gyda gweddill Cymru, y DU a chymdogion Ewropeaidd.
- **Gwella Coridorau Bysiau Strategol** – i greu cysylltedd mwy dibynadwy ac atyniadol rhwng aneddiadau allweddol.
- **Hyrwyddo integreiddio** – er cael mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy a lleihau'r rhwystrau i gyfenwid dulliau teithio
- **Gwella diogelwch mewn perthynas â thrafnidiaeth** – i leihau anafiadau personol a'r pryderon am ddiogeliad personol.
- **Darparu mwy a gwell gwybodaeth** - i godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ddewisiadau trafndiaeth cynaliadwy a'r defnydd y gellir ei wneud ohonynt
- **Gwella cysylltiadau rhwng aneddiadau allweddol a safleoedd cyflogaeth strategol** – i greu amrywiaeth o gyfleoedd deniadol o ran cludiant teithwyr, cerdded a beicio sy'n cysylltu aneddiadau allweddol gyda'r gefnwlad a safleoedd cyflogaeth strategol.
- **Gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith ffyrdd** – drwy wahanol fecanweithiau priodol yn cynnwys cyfyngu ar y galw.

2.8 Mae SWWITCH wedi datblygu cynigion mwy penodol yn y strategaeth ar gyfer pedwar math o ardal o fewn y rhanbarth. Nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u diffinio'n benodol a'u bwriad yw adlewyrchu'r gwahanol flaenoriaethau strategol y bydd eu hangen mewn rhanbarth mor amrywiol. Yr ardaloedd yw :

- Ardal Drefol Abertawe
- Coridorau Strategol
- Aneiddiadau Allweddol a'r gefnwlod
- Ardaloedd gwledig

### 3.0 **POLISI'AU A STRATEGAETHAU CYDRANNOL Y CTRH**

3.1 Nid â phrosiectau penodol neu welliannau i wasanaethau yn unig y mae a wnelo'r gwelliannau sydd wedi'u nodi yn y CTRh gan eu bod hefyd ynghylch:

- y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu cynllunio
- gweithio ar y cyd i ddatblygu a chyflawni
- integreiddio strategaethau, polisiâu a chamau gweithredu

3.2 Polisi cyffredinol y CTRh yw gwella mynediad er hwyluso bywyd o ansawdd da ac economi rhanbarthol ffyniannus a hyfyw. Bwriedir cyflawni hyn drwy gyfrwng ystod o fesurau sy'n seiliedig ar faterion ffisegol, polisiâu a refeniw. Fodd bynnag mae polisiâu manwl mwy penodol wedi cael eu datblygu a'u rhestru yn unol â Blaenoriaethau Strategol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

#### **Lleihau allyriadau nwyon Tŷ Gwydr ac effeithiau eraill trafndiaeth ar yr amgylchedd**

- Polisi E1 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y manau y lleolir datblygiadau newydd yn lleihau eu dibyniaeth ar foduron preifat. O ran tir a ddyrannwyd eisoes bydd y broses ddatblygu yn rhoi'r pwyslais ar sicrhau bod dewisiadau realistig eraill ar gael rhag bod pobl yn teithio mewn ceir ar eu pennau eu hunain.
- Polisi E2 – bydd SWWITCH yn hwyluso a hyrwyddo gwell gwasanaethau bysiau a threnau a chynlluniau cerdded, beicio a rhannu ceir er annog pobl i newid eu harferion teithio a gwella ansawdd yr aer
- Polisi E3 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd gydag amrywiaeth eang o fudiadau yn Ne-orllewin Cymru i annog pobl i wneud cynlluniau teithio a'u datblygu er lleihau'r nifer sy'n cymudo mewn ceir ar eu pennau eu hunain.
- Polisi E4 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd i annog pobl i ddsbarthu nwyddau mewn modd mwy cynaliadwy drwy wneud gwell defnydd o reilffyrdd, cyfleusterau rhyngfoddol a phorthladdoedd.

## **Integreiddio trafndiaeth leol**

- Polisi IT1 – bydd SWWITCH yn datblygu cyfleusterau cyfnewid gwell yn cynnwys cynlluniau Parcio a Theithio er lleihau'r rhwystrau i deithiau amlfoddol
- Polisi IT2 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd er annog datblygu cardiau call a hyrwyddo eu defnydd a chyfleoedd eraill ar gyfer tocynnau amlfoddol
- Polisi IT3 – bydd SWWITCH yn datblygu'r wybodaeth am deithio gynaliadwy sy'n hawdd i'w deall i gefnogi teithiau amlfoddol
- Polisi IT4 – bydd SWWITCH yn hwyluso asiantaethau a mudiadau sy'n darparu trafndiaeth i gydweithio er lleihau'r rhwystrau i arferion teithio mwy gynaliadwy
- Polisi IT5 – bydd SWWITCH yn gweithio gydag asiantaethau a sefydliadau sy'n darparu trafndiaeth i leihau rhwystrau yn cynnwys y rheiny sy'n atal pobl sydd â namau rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus
- Polisi IT6 – bydd SWWITCH datblygu ystod o ddewisiadau trafndiaeth i fodloni anghenion mynediad y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd lle nad oes trafndiaeth gyhoeddus briodol
- Polisi IT7 – bydd SWWITCH yn cyfuno rhwydweithiau Trafndiaeth Strategol a Lleol i hyrwyddo mynediad cynaliadwy i'r arfordir a chefn gwlad ar gyfer twristiaid a thrigolion

## **Gwella mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol**

- Polisi KS1 – bydd SWWITCH yn datblygu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwell, yn cynnwys dulliau trafndiaeth gyhoeddus anghonfensiynol a blaengar i gysylltu aneddiadau allweddol a'r gefnwlod gyda choridorau strategol a safleoedd cyflogaeth strategol a lleol
- Polisi KS2 – bydd SWWITCH yn gwella dibynadwyedd amserau teithiau ar y rhwydwaith ffyrdd rhwng yr aneddiadau allweddol a rhyngddynt â safleoedd cyflogaeth strategol a lleol ac yn gwella diogelwch y rhwydweithiau hynny
- Polisi KS3 - bydd SWWITCH yn gwella cysylltiadau cerdded a beicio yn yr aneddiadau allweddol a rhyngddynt gan gynnwys datblygu Llwybrau Diogel yn y Gymuned.
- Polisi KS4 – bydd SWWITCH yn hyrwyddo dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy i leihau'r ddibyniaeth ar geir ar gyfer teithiau lleol ac i wella ansawdd yr aer lleol

## **Gwella Cysylltedd Rhyngwladol**

- Polisi IC1 – bydd SWWITCH yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy raglen y Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol, i wella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd fel bo amserau'r teithiau yn fwy dibynadwy ac i gefnogi'r economi rhanbarthol
- Polisi IC2 - bydd SWWITCH yn pwysu am welliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd yn Ne-orllewin Cymru a thu hwnt i ranbarthau Sewta a TraCC er annog mwy o fuddsoddiad yn y rhanbarth a chefnogi'r bwriad i newid y dulliau o gludo teithwyr a nwyddau
- Polisi IC3 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd i hwyluso dulliau mwy dibynadwy, effeithiol a chynaliadwy o symud pobl a nwyddau yn ôl ac ymlaen o'n porthladdoedd a thrwyddynt.
- Polisi IC4 – bydd SWWITCH yn gweithio gyda LICC, Sewta a TraCC i gefnogi datblygu mynediad da i feysydd awyr rhanbarthol a chenedlaethol y DU yn neilltuoel drwy gyfrwng trafndiaeth gyhoeddus

## **Cynyddu Diogelwch a Diogeliad**

- Polisi SS1 – bydd SWWITCH yn ceisio lleihau nifer yr anafiadau a'r damweiniau ar ffyrdd drwy wella rheolaeth traffig
- Polisi SS2 – bydd SWWITCH yn gweithio ar y cyd i annog holl ddefnyddwyr y ffyrdd a'r rheilffyrdd i fabwysiadu arferion diogel
- Polisi SS3 – bydd SWWITCH yn annog a hwyluso pobl i wneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio er cynyddu nifer yr ymwelwyr yn ein cymunedau lleol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

- 3.3 Mae LICC wedi gofyn i'r consortia glustnodi blaenoriaethau ar gyfer y meysydd trafndiaeth hynny a gyflenwir gan y Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol sef y blaenoriaethau o ran y Cefnffyrdd, Rheilffyrdd a Refeniw. Mae SWWITCH yn cydnabod bod llwyddiant y CTRh yn dibynnu i raddau helaeth ar fuddsoddiad yn y meysydd hyn ac mae wedi mabwysiadu'r blaenoriaethau canlynol.

### Blaenoriaethau Rheilffyrdd

Disgrifiad	Manylion	Blaenoriaeth
Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd i'r Gorllewin o Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ailddyblu'r lein i'r gorllewin o Abertawe i sicrhau gwell gwasanaethau i Orllewin Cymru yn cynnwys <ul style="list-style-type: none"> <li>3 trên yr awr rhwng Abertawe, Tre-gŵyr, Llanelli a Chaerfyrddin</li> <li>Gwasanaethau bob awr o Gaerfyrddin i Aberdaugleddau</li> <li>5 trên y dydd i Borthladd Abergwaun</li> </ul> </li> </ul>	1
Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd i Gaerdydd, Bryste a Llundain	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau amserau'r teithiau i Gaerdydd, Llundain a thu hwnt</li> <li>Gwella mynediad i orsafoedd prif lein a'u cyfleusterau gan fanteisio ar bob ffynhonnell yn cynnwys cyllid y Rhaglen Genedlaethol i Wella Gorsafoedd a chyllid Cronfa Gydgyfeirio Ewrop</li> </ul>	2
Gwella mynediad i wasanaethau rheilffyrdd a'r defnydd a wneir ohonynt	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pum trên y dydd ar Lein Calon Cymru</li> <li>Gwella gwasanaeth Swanline</li> <li>Datblygu gorsafoedd newydd lle gellir cyfiawnhau hynny ac adolygu rôl y gorsafoedd llai yn yr hirdymor</li> <li>Cynnal a datblygu Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol De-orllewin Cymru</li> </ul>	3

### Blaenoriaethau Cefnffyrdd

Disgrifiad	Manylion	Blaenoriaeth
Ymrwymiadau Cefnffyrdd	<ul style="list-style-type: none"> <li>A40 Penblewyn i Slebets</li> <li>A40 Y Kell</li> <li>A477 Sanclêr i Rhos-goch</li> <li>A 40 Llanddewi Efelre i Benblewyn</li> <li>A483 Ffordd Osgoi Llandeilo</li> </ul>	1
Mesurau blaenoriaeth yr M4 a'r Cefnffyrdd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella cyffyrdd yr M4 i leihau tagfeydd a gwella cysylltedd</li> <li>Ystyried safleoedd Parcio a Rhannu ger cyffyrdd yr M4</li> <li>Goleuadau traffig ar gylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin</li> <li>Gwelliannau i'r A48 yn Cross Hands</li> <li>Rhoi statws cefnffordd i: <ul style="list-style-type: none"> <li>A4138 – rhwng yr M4 a Llanelli</li> <li>A483 - Coridor Ffordd Fabian</li> </ul> </li> </ul>	2
Gwelliannau i'r A 40	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelliannau i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn cynnwys deuoli os gellir profi'r achos busnes</li> <li>Mynediad o'r A40 i ffordd gyswllt arfaethedig gorllewin Caerfyrddin</li> </ul>	3
Rhoi a Thynnu Statws Cefnffordd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi statws cefnffordd i: <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr A485/6 - Caerfyrddin i Synod Inn</li> <li>Yr A476 rhwng Cross Hands a Ffair-fach ynghyd â thynnu statws cefnffordd yr A483 o Bont Abraham drwy Rydaman i Ffair-fach / Llandeilo</li> </ul> </li> <li>Tynnu statws cefnffordd: <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr A40 o Sgwâr Salutation i Gylchfan Llwynhelyg</li> </ul> </li> </ul>	4

## Blaenoriaethau Refeniw

Disgrifiad	Manylion	Blaenoriaeth
Cefnogi'r lefelau presennol o wasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyllid cynnal a chadw i sicrhau parhad cyflwr ardderchog unrhyw gyfleusterau</li> <li>Cynnal lefel bresennol y gefnogaeth i wasanaethau rheilffyrdd, gwasanaethau bysiau a chynlluniau trafndiaeth gymunedol sy'n bodoli eisoes</li> </ul>	1
Cefnogi gwell gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu cyllid cynnal a chadw i gynnwys isadeiledd newydd</li> <li>Cynyddu a gwella gwasanaethau bysiau sy'n canolbwyntio ar gyflenwi dyheadau mynediad CGC a'r Strategaeth Hygyrchedd</li> <li>Gwasanaethau Rheilffyrdd – bydd gwella gwasanaethau drwy ddarparu cerbydau newydd neu wasanaethau ychwanegol yn galw am refeniw ychwanegol gan LICC drwy Fasnachfaint Rheilffyrdd Cymru</li> <li>Datblygu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sy'n newydd ac anghonfensiynol yn cynnwys cynlluniau trafndiaeth gymunedol ac arian sefydlu ar gyfer cynlluniau mentrau cymdeithasol</li> </ul>	2
Cefnogi Arferion Newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cynllun Trefi Cynaliadwy drwy ymgyrchoedd a gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth, a Phrosiectau Cynlluniau Teithio Personol</li> <li>Mentrau newydd o ran tocynnau</li> <li>Targedu'n well y cynlluniau tocynnau teithio rhatach er bodloni anghenion pobl ifanc, ceiswyr gwaith, yr henoed a phobl anabl nad ydynt yn cael budd o'r cynllun tocynnau rhatach presennol</li> </ul>	3
Cefnogi arian sefydlu a chynnal prosiectau cyfalaf	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goblygiadau refeniw prosiectau cyfalaf megis Parcio a Theithio</li> <li>Effeithiau refeniw gorfodaeth parcio well</li> </ul>	4

3.4 Mae SWWITCH hefyd wedi datblygu cyfres o strategaethau cydrannol i ddarparu fframwaith mwy cynhwysfawr ar gyfer datblygu a chyflenwi trafndiaeth a mynediad yn y dyfodol. Mae'r strategaethau cydrannol yn ymwneud â:


- Cludiant nwyddau
- Trafndiaeth Gyhoeddus
- Cynllunio Defnydd Tir
- Rheolaeth Traffig
- Dewisiadau Doethach
- Parcio
- Diogelwch ar y Ffyrdd
- Cynnal a Chadw
- Hygyrchedd
- Cerdded a Beicio

## 4.0 RHAGLEN Y CTRH

4.1 Ar ôl i SWWITCH fabwysiadu amcanion a strategaeth hirdymor, bu ymgynghori ac arfarnu manwl pellach ar raglen o brosiectau ar gyfer eu cyflenwi. Anogwyd rhanddeiliaid i gynnig unrhyw brosiectau y credent fyddai'n eu helpu i gyflawni'r amcanion cyffredinol. Derbyniwyd mwy na 300 o awgrymiadau ar gyfer prosiectau ac aed ati i'w hasesu neu eu "hidlo" fel y nodir yn Ffigur 2 isod.



## Ffigur 2 – Hidlo Prosiectau Awgrymwyd gan y Rhanddeiliaid



- 4.2 Ar ddiwedd y broses hon roedd gennym gronfa o 120 o brosiectau a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ffurfiol yn y CTRh Drafft ym mis Gorffennaf 2008. Ychwanegwyd prosiectau pellach yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghori ond wedi cyfuno rhai ohonynt 120 yw'r nifer o hyd.
- 4.3 Defnyddiodd SWITCH broses flaenoriaethu oedd yn unol ag arfarniad WeITAG ac yn asesu pob prosiect yn ôl y meini prawf canlynol:
- Cydweddu â pholisïau – amcanion a strategaeth y CTRh
  - Gwerth am Arian – asesiad bras yn mesur cost yn ôl y budd
  - Danfonadwyedd - technegol, economaidd, gwleidyddol
  - Effaith ar y Rhanbarth – oedd effeithiau strategol a lleol iawn i'r prosiect
- 4.4 Wedi asesu pob un o'r 120 prosiect yn y gronfa raglenni yn ôl y meini prawf hyn cafwyd bod 75 ohonynt yn bodloni'r trothwy a'r rhain sydd bellach yn ffurfio rhaglen y CTRh. Mae'r prosiectau wedi'u nodi yn nhabl 1 drosodd.



4.5 I gael rhaglen 5 mlynedd synhwyrol aeth SWWITCH ati i asesu'r 75 prosiect o ran y tebygolrwydd y gellid eu cyflenwi o fewn 5 mlynedd gan grwpio prosiectau tebyg gyda'i gilydd. Mae hyn yn bwysig er sicrhau bod pob cwr o'r ardal yn cael budd a bod y rhaglen yn hyblyg. Golyga hyn na fydd oedi mewn un prosiect yn peryglu'r gallu i gyflenwi'r rhaglen gyfan gan y bydd modd symud cyllid i brosiect arall o fewn yr un grŵp neu gyfran o brosiectau.

